OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1687

# Gorchymyn Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015

## RHAN 3

Darpariaethau trosiannol

**Cwynion**

**12.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo cwyn wedi ei gwneud, cyn 21 Medi 2015, i Weinidogion Cymru mewn perthynas â mater a ddisgrifir ym mharagraff (2) ac nad yw Gweinidogion Cymru wedi cwblhau'r gwaith o'i hystyried.

(2) Y materion yw fel a ganlyn—

(a) dyfarnu neu ddilysu ffurf ar gymhwyster gan berson sydd wedi ei gydnabod mewn cysylltiad â hi o dan adran 30(1)(e) o Ddeddf 1997;

(b) unrhyw weithgareddau eraill gan berson sydd wedi ei gydnabod o dan adran 30(1)(e) o Ddeddf 1997 sy'n berthnasol i'r gydnabyddiaeth honno.

(3) O 21 Medi 2015 ymlaen, mae'r gŵyn i gael ei thrin at ddibenion adran 48 o'r Ddeddf fel cwyn a wneir i Gymwysterau Cymru.